Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Esceifiog

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Esceifiog yn gymuned ddysgu hapus a chyfeillgar sy'n annog disgyblion i fod yn falch o'u hysgol a'r gymuned. Mae gweledigaeth gadarn arweinwyr yn treiddio i holl weithgarwch yr ysgol, gyda phwyslais clir ar 'dyfu, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd'. Mae'r ethos clós a chefnogol hwn yn sicrhau bod lles disgyblion yn cael blaenoriaeth amlwg yn yr ysgol gynhwysol hon.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n gynhyrchiol i ddarparu ystod dda o brofiadau diddorol i'r disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd y tu allan, yn ysgogol a diddorol ac mae bob rhan o'r adeilad yn cael ei defnyddio'n hynod greadigol. Mae'r ardaloedd hyn yn cefnogi lles disgyblion yn fuddiol gan sicrhau eu bod yn barod i ddysgu. Mae'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn gwrtais ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol.

Yn gyffredinol, mae medrau addysgu'r athrawon yn gadarn. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu cynnwys yn gyson fel rhan annatod o'u dysgu er mwyn eu cefnogi i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cam nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, ble nad yw'r ddarpariaeth mor gadarn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n ddigon heriol nac ychwaith yn sicrhau bod medrau disgyblion yn adeiladu'n ddigon systematig dros gyfnod.

Mae gan y pennaeth adnabyddiaeth gadarn o'r ysgol ac mae'n annog staff i gydweithio'n agos ag ysgolion lleol ac i fod yn fyfyriol yn eu gweithredoedd er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er hynny, nid yw'r systemau gwella yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar werthuso'r ddarpariaeth i wella safonau a chynnydd disgyblion yr ysgol yn benodol.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod yr addysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu**

**A2** **Gwella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau'n adeiladol**

**A3** **Sicrhau bod y systemau gwella yn canolbwyntio'n  fwy manwl ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Esceifiog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 156 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 122 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn [Cynradd] yw [23.0]%) | 13.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn [Cynradd] yw [16.1]%) | 34.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/06/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/01/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.